Ymyriad	Teithio Cynaliadwy			Gwyrdd	Cynnydd cyfredol ar y targed
				Oren	Cynnydd ar ôl y targed ond yn dal yn bosibl
Swyddogion arweiniol	Will Godfrey / Craig Lane	Cyfnod adrodd	Chw.3 2018-19	Coch	Cynnydd ymhell y tu ôl i'r targed

Cyflawniadau a Llwyddiannau Allweddol

CAM 1: BGC i ddod yn hyrwyddwyr teithio cynaliadwy: Astudiaeth ddichonoldeb fflyd allyriadau isel iawn Gwent yn cael ei chynnal gan yr Ymddiriedolaeth Arbed Ynni (gan gynnwys y fflyd lwyd). Cynhelir cyfarfodydd rheolaidd gyda Llywodraeth Cymru a Thrafnidiaeth Cymru i dynnu sylw at uchelgais teithio cynaliadwy Casnewydd.

CAM 2: Creu amgylchedd lle rhoddir blaenoriaeth i drafnidiaeth gyhoeddus, cerdded a beicio: Sicrhawyd cyllid ar gyfer y canlynol: Astudiaeth trafnidiaeth canol y ddinas £0.5m, pont deithio llesol gorsaf Casnewydd £3.1m, pont deithio llesol Monkey Island / Pentref Lysaght £1.5m, uwchraddio seilwaith arosfannau bysiau £1.85m. Mae canllawiau cynllunio atodol (CCA) ar gyfer ansawdd aer bellach yn eu lle. Mae rhaglen Llwybrau Diogel mewn Cymunedau ar y gweill yn Ysgol Gynradd Dewi Sant ac mae'r Rhaglen Teithio Llesol ar y gweill yn Ysgol Gynradd Ringland a St Padrig.

CAM 3: Annog y defnydd o gerbydau allyriadau isel: Astudiaeth ddichonoldeb pwyntiau gwefru ceir trydan Gwent ar y gweill i fapio lleoliadau gwefru ar draws Gwent. Mae cynllun Sêr Eco yn cael ei gynnig i weithredwyr fflyd yn y ddinas. Hefyd bu cyllid ar gyfer un bws trydan yn llwyddiannus.

Prif risgiau / Rhwystrau rhag cynnydd	Statws (U/C/I)	Gweithrediadau lliniaru / cymorth sydd ei angen
Cafwyd rhai problemau o ran coladu gwybodaeth gan holl bartneriaid BGC.	Canolig	Anfonir nodyn atgoffa pellach. Gofynnir i bartneriaid BGC gymryd rhan.
Colli cyfleoedd i sicrhau cyllid.	Canolig	Cydweithio i gwblhau ceisiadau cryf am gyllid.
Nid yw'r holl bartneriaid yn cydweithio'n effeithiol fel hyrwyddwyr.	Canolig	Cytuno ar rolau a chyfrifoldebau partneriaid a sicrhau cyfathrebu effeithiol.

Mesurau Perfformiad Allweddol	Targed	Gwirioneddol	CAG
Canran y cerbydau fflyd BGC sydd ag allyriadau isel iawn (targed 5 mlynedd).	10%	Yn cael ei goladu	Amh.
Nifer yr Ysgolion sy'n ymgymryd â rhaglen teithio llesol.	3	3	Gwyrdd
Cynnydd mewn Teithio Llesol yn yr ysgolion hynny sy'n ymgymryd â rhaglen teithio llesol.	10%	9.4%	Oren
Defnydd o'r Cynllun Beicio Nesaf (wrthi'n cael ei ddatblygu).			Amh.
Sefydliadau wedi ymuno â Chynllun Sêr Eco.	I'w gytuno	10	Gwyrdd
Lleihau allyriadau CO2/ arbed costau tanwydd yn deillio o Gynllun Sêr Eco.	I'w gytuno	I'w goladu	Amh.

Cynlluniau ar gyfer y chwarter nesaf a'r dyfodol

CAM 1: Bydd astudiaeth ddichonoldeb y fflyd yn cael ei chwblhau. Coladu cynlluniau Teithio Llesol a datblygu canllawiau arfer gorau. Coladu ffigurau cerbydau fflyd DGC. Strategaeth Drafnidiaeth Gynaliadwy Casnewydd i fynd allan i ymgynghoriad cyhoeddus.

CAM 2: Gwnaed cais am gyllid pellach i gyflwyno rhaglenni teithio llesol ar draws pob ysgol gynradd yng Nghasnewydd - disgwyl am ganlyniad. Cynllun Beic Nesaf (beic ar y stryd) i'w weithredu yn y ddinas.

CAM 3: Ehangu ymhellach y cynllun Sêr Eco unwaith y bydd yr arian wedi'i gadarnhau. CCA teithio cynaliadwy yn cael ei ddatblygu. Strategaeth CT i'w datblygu ar gyfer y ddinas.